Ministry of Justice

**Yr Arglwydd Timpson**
Gweinidog Gwladol
Cyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol
CEF Caerdydd
Ffordd
Knox
Caerdydd
CF24 0UG

**Cyfeirnod y Weinyddiaeth Gyfiawnder:** SUB132252

27 Chwefror 2026

Annwyl Gadeirydd,

**CEF CAERDYDD: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MEDI 2024 – 31 AWST 2025**

Diolch am ddarparu addroddiad blynyddol eich Bwrdd ar gyfer Carchar Ei Fawrhydi Caerdydd. Rwy'n ddiolchgar iawn am y gwaith sylweddol a wnaed i'r adroddiad craff hwn, yn enwedig o ystyried y newidiadau sylweddol i'ch aelodaeth yn ystod y cyfnod adrodd a bod y prinder wedi gwaethygu. Gwerthfawrogir ymdrechion yr aelodau sy'n weddill yn fawr.

Roeddwn yn drist o glywed y bu farw dau garcharor yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd. Rwy'n cynnig fy nghydymdeimlad i'w holl ffrindiau a'u teuluoedd a hoffwn roi sicrwydd iddynt y bydd unrhyw argymhellion a wneir gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn cael eu cymryd o ddifri. Rwyf hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth y Bwrdd o gymorth Swyddog Cyswllt â Theuluoedd y carchar a ddarparwyd i'r teuluoedd a gafodd eu heffeithio.

Rwy'n cydnabod rhwystredigaethau'r Bwrdd ynglŷn â fetio diogelwch sy'n oedi'r broses recriwtio. Rhaid i mi bwysleisio bod y broses fetio yn hanfodol i sicrhau y gall pob unigolyn sy'n gweithio yn y carchar gynnal y safonau diogelwch ac uniondeb a ddisgwylir er mwyn cadw ein carchardai yn ddiogel. Mae'r gwiriadau a wneir yn asesu unigolion yn erbyn ystod o ofynion deddfwriaethol a ffactorau diogelwch sy'n flaenoriaeth ar gyfer gweithio yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS). Caiff ei gydnabod, wrth i'r gwiriadau cyn-gyflogaeth gael eu gwneud yn fwy cadarn, fod yr amserlenni clirio wedi ymestyn. Serch hynny, achoswyd yr oedi'n bennaf gan gynnydd o 30% mewn recriwtio ar draws HMPPS a'n darparwyr o gymharu 2024 â 2025. Mae cyllid wedi'i gymeradwyo i roi adnoddau i dimau fetio yn unol â'r cynnydd hwn o 30%, a dechreuodd y recriwtio yn yr haf gyda staff newydd yn dechrau ym mis Rhagfyr 2025. Rhagwelir y bydd effaith sylweddol yn amlwg erbyn mis Mawrth 2026 unwaith y bydd carfannau staffio pellach yn eu lle, ond yn y cyfamser, mae Shared Services Connected Ltd (SSCL) a HMPPS yn defnyddio proses hyblyg o ddyrannu adnoddau a goramser i liniaru'r oedi. Mae cydweithwyr Fetio Diogelwch Personél hefyd wedi bod yn gweithio i uwchsgilio Pwyntiau Cyswllt Fetio lleol lle gofynnir i arweinwyr lleol sicrhau bod gan y Pwyntiau Cyswllt Fetio hyn ddigon o amser i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae CEF Caerdydd ei hun wedi bod yn defnyddio dulliau lleol i ddirymu'r effaith gymaint â phosib a pharhau i gynghori partneriaid a darparwyr lleol i ddechrau recriwtio a gwirio cyn gynted â phosib er mwyn atal unrhyw oedi. Serch hynny, gellir eich sicrhau hefyd fod HMPPS yn gweithio gyda SSCL a darparwyr i wella'r asesiad o weithgarwch recriwtio yn y dyfodol a fydd yn sicrhau y gellir rheoli unrhyw gynnydd yn briodol.

**T** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753
**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj
102 Petty France London
SW1H 9AJ

Rydw i hefyd yn deall eich pryderon ynglŷn â'r newidiadau i Reolau Mewnfudo'r DU. Gwnaethpwyd y newidiadau hyn i leihau mudo net gan fod rhaid i niferoedd ostwng ymhellach wrth i ni greu system fudo sy'n cael ei rheoli ac yn deg. Serch hynny, gweithiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyda'r Swyddfa Gartref ar y mater hwn o gofio mai diogelwch y cyhoedd yw dyletswydd gyntaf unrhyw Lywodraeth, ac mae'n rhaid i ni sicrhau y gall carchardai barhau i redeg yn ddiogel gyda'r lefel iawn o staff profiadol.
O ganlyniad, ar 19 Rhagfyr 2025, cyflwynwyd eithriad am gyfnod penodol i reolau fisa Gweithiwr Crefftus ar gyfer swyddogion carchardai hyd at 31 Rhagfyr 2026, gyda throthwy cyflog is o £33,400 (yn amodol ar ddiweddariadau) tan 31 Rhagfyr 2027. Nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer eithriadau pellach, a gwn y bydd hyn yn parhau i fod yn fater sensitif i gydweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau ac efallai na fyddant yn elwa o'r eithriad dros dro. Mae'r rhai sy'n cael eu heffeithio yn cael eu hannog i ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol i ystyried eu hopsiynau fisa.

Er bod y pryderon rydych chi'n eu codi yn bwysig, cefais fy nghalonogi wrth ddarllen am y gostyngiad o bron i 50% mewn trais, hunan-niweidio a'r angen i swyddogion carchardai ddefnyddio grym i ddad-ddwysáu digwyddiadau. Roedd yn braf nodi bod gwelliannau wedi'u gweld yn yr awyrgylch ar yr adain a'r ymgysylltiad positif rhwng staff a charcharorion. Rwy'n croesawu penderfyniad y carchar yn lleol i barhau â'r mentoriaid hyfforddedig Here 2 Help i gyfoedion sy'n helpu gyda gwydnwch emosiynol ac roedd yn ddiddorol dysgu am agoriad y ganolfan les a'r datblygiad arfaethedig i gefnogi carcharorion. Roedd hefyd yn galonogol darllen am yr arfer da a'r perfformiad positif y mae'r Bwrdd wedi'i weld mewn addysg a gwaith o fewn y carchar, o ystyried bod hyn yn hanfodol i roi'r cyfle i garcharorion fod yn llwyddiannus ar ôl eu rhyddhau.

Rwy'n sylwi eich bod wedi codi rhai materion lleol sy'n peri pryder yn eich adroddiad, y bydd y Llywodraethwr yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'r gwaith barhau. Mae sylwadau HMPPS mewn ymateb i faterion eraill a godwyd yn eich adroddiad wedi'u nodi yn yr atodiad amgaeedig.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a minnau yn gwerthfawrogi'n fawr yr oruchwyliaeth y mae aelodau Byrddau Monitro Annibynnol yn ei darparu i'n carchardai, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi eich ymroddiad parhaus ar ran CEF Caerdydd.

Yn gywir,

James

**Yr Arglwydd Timpson**
**Gweinidog Carchardai, Prawf a Lleihau Aildroseddu**

**Atodiad**

## CEF CAERDYDD: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MEDI 2024 – 31 AWST 2025

**<u>Sylwadau HMPPS ar faterion a godwyd yn yr adroddiad</u>**

### Cynnal a chadw

Mae HMPPS yn adolygu'n barhaus y buddsoddiad sydd ei angen ar draws ystad y carchar gyda chynigion ariannu wedi'u hategu gan ddata a gasglwyd o arolygon cyflwr y gorffennol a asesodd yr adeiladwaith, y celloedd a'r asedau hanfodol ym mhob carchar. Mae'r rhain yn llywio cofrestrau cynnal a chadw hirdymor i flaenoriaethu gwaith yn erbyn cyllidebau cyfalaf yn y dyfodol. Mae ceisiadau wedi'u gwneud ar gyfer CEF Caerdydd i uwchraddio'r CCTV a'r system synhwyro ar y perimedr, gosod systemau rheoli mwg yn yr Uned Gofal Iechyd, a dymchwel ac ailadeiladu Seicoleg, cyfleusterau llesiant, a gweithdy'r teiliwr. Mae'r prosiectau hyn dan ystyriaeth am gyllid ym mlynyddoedd ariannol y dyfodol o ystyried eu bod yn gostus, yn hirfaith ac yn golygu na fydd pob lle yn y carchar yn gallu cael eu defnyddio. Mae cais i ddatrys y problemau lleithder yn yr Uned Gofal Iechyd hefyd yng nghyfnodau cynnar ei ddatblygiad ac nid yw'r cais blaenorol am danciau dŵr ychwanegol a llif wedi'i bwmpio yn angenrheidiol mwyach. Er gwaethaf oedran rhai rhannau o CEF Caerdydd, mae'r carchar dal yn eithriadol o lân ac mae prosiectau parhaus yn parhau i wella gwedduster drwy'r rhaglen beintio ac adnewyddu'r celloedd. Lle cafodd problemau eu nodi, bydd y carchar yn parhau i ymgysylltu â'r darparwr cynnal a chadw i ddatrys problemau cyn gynted â phosib, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu trafod yn y cyfarfod wythnosol sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Lywodraethwr.

### Hebryngwyr Ysbytai

Mae'r carchar wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i nodi camau i liniaru nifer yr hebryngwyr ac i nodi ffyrdd y gall clinigau a gofal ddigwydd yn y carchar. Mae sawl cam eisoes ar waith ar y cyd, ac mae'r bartneriaeth hon yn parhau i gael ei chryfhau gyda brysbennu clinigol uwch er mwyn sicrhau dewisiadau eraill, fel ystyried triniaethau yn y carchar neu adolygiadau clinigol o bell, a dim ond carcharorion sydd wirioneddol angen mynd i'r ysbyty sy'n cael eu hebrwng oddi ar y safle. Bydd amserlennu a chydlynu gwell rhwng y Bwrdd Iechyd a'r carchar er mwyn sicrhau bod apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys yn cyd-fynd ag amseroedd sy'n lleihau effaith weithredol, gan gynnwys grwpio apwyntiadau ac osgoi amseroedd penodol o fewn trefn ddyddiol y carchar lle bo'n bosib. Mae clinigau arbenigol mewngymorth hefyd yn cael eu datblygu, lle bo'n briodol yn glinigol, fel y gellir darparu mwy o ofal o fewn y carchar, fel adolygiadau diabetig, hyfywedd meinwe a chlinigau iechyd rhywiol. Yn ogystal, mae cyfarfodydd gweithredol rheolaidd yn digwydd ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a CEF Caerdydd i sicrhau cyfathrebu a chymorth da i nodi pwysau sy'n dod i'r amlwg, adolygu'r galw a chytuno ar fesurau lliniaru. Mae cynllun hefyd wedi'i ddatblygu ar y cyd i gynhyrchu protocol hebrwng brys ac mewn argyfwng pan fo hyn yn ofynnol, a bod clinig brys y tu allan i oriau wedi'i sefydlu gydag ysbyty lleol i leihau'r niferoedd sydd angen eu cludo i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

### Meddyginiaeth

Mae'r ddarpariaeth ragnodi yn y carchar wedi'i hymgorffori i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro er mwyn sicrhau bod mwy o staff, ac mae'r tîm bellach wedi'i staffio'n llawn am yr wythnos gyfan. Ceir dau fferyllydd rhagnodi yn ogystal â dau fferyllydd sydd newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â gwiriadau rhagnodi. Mae hefyd yn galonogol bod y Bwrdd wedi cydnabod bod nifer y ceisiadau i'r Bwrdd ynglŷn â materion presgripsiynau a meddyginiaethau bron wedi haneru yn ystod y flwyddyn adrodd.

### Darpariaeth Iechyd Meddwl

Mae'r problemau o fewn y Dadansoddiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'u cydnabod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cymryd cyfres o gamau wedi'u targedu i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys cryfhau capasiti clinigol drwy recriwtio ymarferwyr iechyd meddwl a seiciatryddion, ochr yn ochr ag archwilio modelau gweithlu newydd i roi sylw mwy cyson ar y safle. Mae cymorth amlddisgyblaethol yn cael ei ehangu a fydd yn caniatáu i

therapïau seicolegol, gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, a thimau camddefnyddio sylweddau weithio mewn ffordd fwy integredig i wella parhad gofal. Bydd proses atgyfeirio a brysbennu ddiwygiedig yn sicrhau bod unigolion sydd â'r angen clinigol uchaf yn cael eu gweld yn brydlon a bydd yn lleihau oedi diangen ar gyfer apwyntiadau arferol. Bydd hyn yn cael ei oruchwylio gyda phroses well o fonitro data a pherfformiad, fel bod amseroedd aros, apwyntiadau sy'n cael eu colli, a bylchau yn y gwasanaeth yn cael eu nodi'n gynharach ac yr eir i'r afael â nhw'n fwy effeithiol. Roedd yr adolygiad positif ymhlith cyfoedion a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Carchardai yn ystod y flwyddyn adrodd yn galonogol, ac mae'r tîm iechyd meddwl yn CEF Caerdydd bellach ar ei gryfder llawn, serch hynny, caiff ei gydnabod bod angen gwaith pellach ar y gwasanaeth a ddarperir.
Felly bydd y carchar yn parhau i weithio ochr yn ochr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro drwy gyfarfodydd llywodraethu a'r Bwrdd Partneriaeth i leddfu unrhyw broblemau a nodwyd, fel helpu i gynyddu presenoldeb carcharorion mewn apwyntiadau gofal iechyd.